

Rheolwr cyllid
Theatr Clwyd
Disgrifiad Swydd

Teulu: Profiad
Yn gyfrifol am: Uwch Gynorthwy-ydd Cyllid
Yn adrodd i: Rheolydd Ariannol
Graddfa: M1

Pwrpas y Swydd

Mae'r Rheolwr Cyllid yn gyfrifol am redeg y swyddogaeth Gyllid o ddydd i ddydd o fewn grŵp Cwmnïau Theatr Clwyd. Mae'n gweithio gyda'r Rheolydd Ariannol i gydlynu strategaeth ariannol Theatr Clwyd, sydd wedi'i chysylltu ag ethos a gweledigaeth artistig y cwmni. Mae'r rôl yn mynnu cyfrifoldeb personol, barn a blaengaredd, gyda gwybodaeth arbenigol am gyllid mewn cyd-destun celfyddydol. Bydd ef / hi'n dirprwyo ar ran y Rheolydd Ariannol fel sy'n briodol. Mae'r Rheolwr Cyllid yn hwylusydd rhagorol gydag ymrwymiad clir i ddulliau gweithio rhesymegol a chreadigol sy'n cael eu harwain gan ganlyniadau.

Cyfrifoldebau allweddol

Rhagweld a Chyllidebu

- Sicrhau bod terfynau amser diwedd mis yn cael eu bodloni yn unol â'r amserlen gau fisol a chyflawni prosesau diwedd mis yn Xledger.
- Cynhyrchu rhagolwg incwm a gwariant ac alldro cwmnïau sy'n ymweld misol ar gyfer y cyfrifon rheoli. Sicrhau bod pob agwedd ar gostau ac incwm yn cael eu cynrychioli'n gywir yn y system gyfrifon (gan gynnwys postio cronïadau a gohiriadau priodol) a chynhyrchu amserlen gyfraniadau fisol Cwmnïau Sy'n Ymweld i'r Rheolydd Ariannol a'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu.
- Cynnal gwybodaeth a rhagolygon Dadansoddiad Cynhyrchu, gan gysylltu â'r Adran Gynhyrchu lle bo hynny'n briodol.
- Helpu i baratoi'r adroddiadau rheoli misol (symiau gwirioneddol a rhagolygon treigl) ar gyfer incwm a gwariant, risgiau a chyflleoedd.

Systemau, Prosesau a Mesurau Rheoli Ariannol

- Gweithio gyda'r Rheolydd Ariannol i sicrhau bod prosesau a systemau cyllid yn addas at y diben o ran effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, cefnogaeth fusnes, adrodd a mesurau rheoli effeithiol.
- Llunio a chyflwyno'r cyflwyniad PRS chwarterol.
- Cyfrifo ffigurau COS masnachu misol a symudiad stoc cyfnodolyn i'r llyfr cyfrifon.
- Cynhyrchu adroddiadau swyddfa docynnau cwmnïau sy'n ymweld.

Treth a Chydymffurfiaeth

- Sicrhau bod rhwymedigaethau Theatr Clwyd yn cael eu bodloni o ran TAW a Chymorth Rhodd.
- Cefnogi'r Rheolydd Ariannol i baratoi'r Datganiadau Ariannol o dan SORP, gan gynnwys cymhwyso safonau cyfrifo a datrys materion archwilio.

Cyfrifon Prynu a Gwerthu

- Darparu gwasanaeth AP ac AR ar ran yr Uwch Gynorthwy-ydd Cyllid gan gynnwys cofrestru anfonebau prynu, paru archebion prynu a chodi Anfonebau Gwerthu.
- Sicrhau codio cywir ar gyfer pob trafodyn.
- Cynhyrchu datganiadau gwrthgyferbyniol a setliadau amserol ar gyfer cwmnïau sy'n ymweld.

Arian Parod a Bancio

- Gweithredu fel llofnodwr awdurdodedig ar gyfrifon cyfredol Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd a Mentrau Theatr Clwyd.
- Gweithredu fel defnyddiwr awdurdodedig Bankline gan gynnwys codi ac awdurdodi taliadau yn ôl yr angen.
- Gweithredu fel defnyddiwr awdurdodedig Autopay gan gynnwys codi ac awdurdodi sypiau taliadau.

Arall

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Adran Gyllid.
- Mynychu cyfarfodydd y grŵp Rheolwyr Pobl
- Cynrychioli a hyrwyddo'r sefydliad yn gadarnhaol ar bob lefel.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chais rhesymol y Rheolydd Ariannol.

Manyleb y Person

Hanfodol

- Cymhwyster cyllid perthnasol naill ai yn llawn neu'n rhannol.
- Profiad o gyfrifeg rheoli, rhagweld llif arian a chyfrifon statudol diwedd blwyddyn.
- Gwybodaeth glir am faterion trethiant (yn enwedig Treth Incwm, Yswiriant Gwladol, TAW a Chymorth Rhodd) a'r gallu i ehangu'r wybodaeth honno yn ôl yr angen.
- Profiad clir o ragweld, cyllidebu a chynllunio ariannol.
- Dealltwriaeth o gyllid a systemau cyllid.
- Meddwl creadigol ac arloesol mewn perthynas â datrys problemau.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, a'r hyder i wneud cyfraniad llawn at gyfeiriad cyffredinol y sefydliad.
- Y gallu i weithio'n fanwl gywir gyda sylw rhesymegol i fanylion.
- Agwedd gyfeillgar a phroffesiynol.
- Sgiliau TG rhagorol gyda lefel uchel o gymhwysedd yn Excel.
- Y gallu i fod yn aelod effeithiol o dîm ac ymgysylltu â holl weithgareddau'r theatr.
- Dull hyblyg, ymarferol o weithio gydag agwedd gadarnhaol a pharodrwydd i ddysgu.
- Ymrwymiad i ragoriaeth artistig.

Dymunol

- Enw da am reoli elusennau a dealltwriaeth dda o'r amgylchedd y mae elusennau'n gweithredu ynddo.
- Profiad o weithio gyda meddalwedd cyfrifo Xledger a Xero.
- Cymraeg ysgrifenedig a llafar.
- Profiad o SORP.
- Dealltwriaeth o faterion cyfoes mewn rheolaeth ariannol yn sector y celfyddydau neu'r diddordeb a'r gallu i sicrhau hyn yn gyflym.
- Profiad o gynllunio strategol.
- Gwybodaeth weithredol am swyddogaethau llyfrau prynu a gwerthu a rheoli credyd.
- Diddordeb mewn gweithio yn sector y celfyddydau perfformio ac ym maes gweinyddiaeth y celfyddydau.
- Trwydded yrru lawn.